# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
14 Mawrth 2016

## CLA696 - Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) (Diwygio) 2016

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 ('Rheoliadau 2015') yn rhagnodi'r cyrsiau cymhwysol a'r personau cymhwysol at ddibenion Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ('Deddf 2015'), y mae adran 5 ohoni yn nodi bod yn rhaid i gynlluniau ffioedd a mynediad nodi terfyn ffioedd (neu ddarparu ar gyfer penderfynu ar derfynau) mewn perthynas â chyrsiau cymhwysol ar gyfer pob blwyddyn academaidd.

Mae'r rheoliad 3 newydd yn rhagnodi'r disgrifiad o gwrs cymhwysol mewn cysylltiad â chynllun Ddeddf 2004 (cynllun a gymeradwywyd o ran Cymru o dan adran 34 Deddf Addysg Uwch 2004 cyn 1 Awst 2015) at ddibenion y cyfnod trosiannol o dan Ddeddf 2015.

Mae'r rheoliad 3A newydd yn rhagnodi'r disgrifiad o gwrs cymhwysol mewn cysylltiad â chynllun ffioedd a mynediad o dan Ddeddf 2015 nad yw'n gynllun Deddf 2004.

Mae'r rheoliad 3B newydd yn darparu, at ddibenion y rheoliadau 3 a 3A newydd, ar gyfer pan nad yw cwrs yn gwrs cymhwysol.

## CLA697 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2016

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ('y Rheoliadau Optegol') sy'n darparu ar gyfer taliadau i'w gwneud drwy gyfrwng system dalebau mewn perthynas â chostau a ysgwyddir gan gategorïau penodol o bersonau mewn cysylltiad â phrofion golwg a chyflenwi, cyfnewid a thrwsio cyfarpar optegol.

Mae rheoliad 2 a'r Atodlen yn diwygio Atodlenni 1, 2 a 3 i'r Rheoliadau Optegol i gynyddu:

– gwerth y talebau a roddir tuag at y gost o gyflenwi a chyfnewid sbectolau a lensys cyffwrdd;

– gwerthoedd ychwanegol y talebau ar gyfer prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd a chategorïau cyfarpar arbennig; a

– gwerth y talebau a roddir tuag at y gost o drwsio a chyfnewid cyfarpar optegol.